

Amffibiaid ac Ymlusgiaid

y n n e C y m r u




Amffibiaid ac Ymlusgiaid yn ne Cymru



Neidr y Glaswellt © SWWARG

Dau grŵp hynafol o anifeiliaid sydd wedi bod ar y blaned am amser hir iawn yw amffibiaid ac ymlusgiaid. Herpetoleg yw'r enw a roddir ar yr astudiaeth o'r anifeiliaid hyn. Er mwyn symleiddio pethau, cyfeirir at y ddau grŵp o anifeiliaid fel herpetoffawna drwy'r llyfryn hwn. Mae enghreifftiau o'r ddau grŵp o anifeiliaid yn byw ledled de Cymru ac maent yn dangos amrywiaeth o ymddygiadau a thactegau goroesiad diddorol tu hwnt.



Madfall Cyffredin - benyw © SWWARG

Mae poblogaethau herpetoffawna de Cymru o dan bwysau cynyddol yn sgîl amrywiaeth o resymau megis colli cynefin, arwahanrwydd cytrefi ac ymyrraeth gan bobl. Mae llawer o ffyrdd y gallwn gynorthwyo'r grŵp hwn o anifeiliaid sydd wedi'u camddeall, a bydd y llyfryn hwn yn ceisio dangos y ffyrdd hynny er mwyn i'r darllenydd allu gwneud ei gyfraniad gwerthfawr ei hun tuag at helpu i ddiogelu'r anifeiliaid a'u cynefin.

Y gwahaniaeth rhwng Amffibiaid ac Ymlusgiaid



Madfall Cefn © ARC

Mae amffibiaid, megis brogaod, llyffantod a madfallod dŵr, yn meddu ar groen mandylog sy'n cyfnewid dŵr ac ocsigen er mwyn iddynt allu anadlu drwy eu croen. Mae'n rhaid i bob rhywogaeth o amffibiaid a geir yn ne Cymru ddychwelyd i'r dŵr er mwyn bridio. Mae'r oedolion yn silio mewn dŵr croyw. Bydd y sil sy'n deor yn pasio drwy gam larfal neu benbwl cyn metamorffeiddio yn fersiynau bach o'r oedolion.

- Yn gyffredinol, mae ganddynt groen llyfn, llaith
- Yn gyffredinol maent yn symud yn araf
- Maent yn byw mewn dŵr neu o'i amgylch



Llyffant Du © SWWARG

Fel amffibiaid, mae ymlusgiaid megis nadredd a madfallod yn greaduriaid gwaed oer neu'n ectothermiaid. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt gynhesu eu hunain yn allanol, naill ai drwy olau uniongyrchol yr haul, neu drwy thermoreoleiddiad. Mae thermoreoleiddiad yn ffordd o wresogi drwy osod y corff yn erbyn gwrthrychau sy'n cadw gwres. Mae Nadroedd Defaid yn defnyddio thermoreoleiddiad ac fe'u ceir yn aml mewn tomenni compost neu o dan wrthrychau sy'n cadw gwres megis hen deiers neu ddalenni o fetel. Mae gan ymlusgiaid groen dwrglos. Maent naill ai'n cynhyrchu rhai bach byw sy'n fersiynau perffaith o'r oedolion neu, yn achos Neidr y Glaswellt, wyau tynn-ddŵr, yn eu plisgyn.

- Mae ganddynt groen sych a chennog
- Gallant symud yn gyflym, maent yn ystwyth ac yn effro

Ymlusgiaid a'r gyfraith:

Mae holl ymlusgiaid brodorol de Cymru'n cael eu diogelu gan is-adran 9 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981

Yroseddau:

Mae amddiffyniad o dan y ddeddfwriaeth uchod yn golygu ei bod hi'n anghyfreithlon i: Ladd, anafu neu werthu ymlusgiad

Pa Amffibiaid y gallaf eu gweld yn ne Cymru?

Mae'n hawdd gwahaniaethu rhwng y Broga (*Rana temporaria*) a'r Llyffant Du oherwydd bod gan y Broga groen llyfn a laith, a choesau cefn cryf sy'n hyrddio,



Broga Cyffredin © ARC

gan ei alluogi i neidio'n bell. Mae brogaod hefyd yn dangos rhan dywyll o groen y tu ôl y llygaid uwchben llinell y geg ac, ar y cyfan, maent yn edrych yn fwy athletaidd na llyffantod. Mae'r rhywogaeth yn amrywio'n fawr o ran lliw a phatrwm a gallant amrywio o felyn golau iawn i liwiau brown a gwyrdd i bron du ac mae'n bosibl cael unigolion cochlyd (rhai benywaidd ydynt gan amlaf).

Peidiwch â gadael i'r enw "Broga Cyffredin" eich camarwain; nid ydynt yn gyffredin o gwbl a byddent yn elwa o ychydig bach o help gan bobl. Ffordd gwych o ddechrau ydy creu pwll dŵr yn eich gardd i'r anifeiliaid ei ddefnyddio fel safle bridio. Mae brogaod yn dod allan o'u gaeafgwsgh rhwng yn hwyr ym mis Ionawr i ganol mis Chwefror yn ne Cymru, ac maent yn sillio mewn ardaloedd o ddŵr croyw bas. Byddant yn defnyddio pyllau dŵr gardd a grëir ar eu cyfer yn rheolaidd.

Mae gan Lyffantod Du (*Bufo bufo*) groen sychach, garwach na brogaod. Y tu ôl i'r

llygaid ar ochr y pen ceir pâr o “fwmpiau” amlwg sydd, mewn gwirionedd, yn chwaraennau sy'n gallu cynhyrchu chwaraenlif atgas fel amddiffyniad yn erbyn ysglyfaethwyr. Mae llyffantod yn tueddu i hercian yn hytrach na neidio ond maent bron mor amrywiol â brogaod o ran eu lliw, er bod y rhan fwyaf yn dueddol o fod yn frown, yn aml gyda rhywfaint o wyrdd olif.



Llyffant Du © ARC

Mae Llyffantod Du hefyd yn llai cyffredin y dyddiau hyn nag yn y gorffennol. Maent yn teithio i byllau dŵr bridio traddodiadol yng nghanol mis Chwefror i fis Mawrth lle bydd y benywod yn troelli eu silod o amgylch coesau planhigion dŵr. Mae'r tymor bridio yn amser peryglus i lyffant a chaiff llawer eu ladd ar ffyrdd pan fyddant yn teithio i'w pyllau dŵr bridio. Er eu bod yn llai tebygol na brogaod o ddefnyddio pyllau dŵr mewn gerddi i fridio ynddynt, gall llyffantod gael budd o greu tomeni cynefin syml.


Gall y Fadfall Cyffredin neu Lyfn (*Lissotriton vulgaris*) dyfu hyd at oddeutu



Madfall Lefn © ARC

10cm o hyd ac amrywio o ran lliw o frown-melyn golau i bron yn gyfan gwbl ddu. Maent yn symud yn araf (er y gallant nofio'n eithaf cyflym pan fydd angen iddynt newed) ac mae ganddynt groen llyfn. Mae'r tymor bridio yn para o fis Mawrth tan fis Mehefin ac mae'n digwydd mewn dŵr, gyda'r fenyw yn gosod wyau, fel arfer yn unigol neu mewn paruau, gan eu hatodi i ddail planhigion dŵr ac yna plygu'r ddeilen dros yr ŵy gyda'i choesau cefn. Mae gwrywod yn tyfu crib ymdonnog parhaus ar hyd y cefn a'r gynffon yn ogystal ag ymylon croen o amgylch bysedd y traed cefn. Mae gwrywod hefyd yn datblygu smotiau mawr ar ran uchaf y corff yn ystod y tymor bridio. Dros weddill yr haf, mae madfallod dŵr yn byw y tu allan i'r dŵr ac yn cael lloches mewn ardaloedd cysgodol megis pentyrrau o foncyffion mewn gerddi, gan fentro allan yn y nos er mwyn bwyta pryfaid bach.

Y Fadfall Dŵr Palfog (*Lissotriton helveticus*) yw'r rhywogaeth leiaf o fadfall dŵr yn ne



Madfall Balfog - Gwryw © Fred Holmes



Mae Madfallod Palfog Benywaidd yn cael eu cymysgu am fadfallod llyfn benywaidd © ARC

Cymru. Tyfant at 9cm o hyd er eu bod yn aml gryn dipyn yn llai. Mae'r ymddygiad bridio a'r cylch bywyd bron yn union yr un peth â Madfallod Dŵr Llyfn, er bod crib y gwryw yn llawer llai amlwg na Madfallod Dŵr Llyfn ac mae ganddo ymyl syth. Ceir "edefyn" neu ffilament amlwg ar frig cynffon gwryw sy'n bridio yn ogystal â webin ar y traed cefn.

Y Fadfall Cribog Gwyaf neu'r Fadfall Ddafadennog (*Triturus cristatus*) yw'r



Y Fadfall Cribog Fwyaf - Gwryw © Fred Holmes



Y Fadfall Cribog Fwyaf - Benyw © Fred Holmes

amffibian prinnaf a geir yn ne Cymru ac mae'n rhywogaeth warchoddedig. Gan fesur cymaint â 16cm o hyd, gallant fod ddwywaith hyd y ddwy rywogaeth fwy cyffredin o fadfall dŵr. Mae rhan uchaf y corff yn frown tywyll unfurf iawn, bron yn ddu, tra bod y bol yn batrwm gleisiog prydfferth o oren llachar iawn a du. Mae'r croen yn llawer mwy garw na'r ddwy rywogaeth arall o fadfall dŵr, a dyna pam y gelwir yr anifeiliaid yn Fadfallod Dafadennog weithiau. Mae'r bridio a'r cylch bywyd yn debyg iawn i'r ddwy rywogaeth arall o fadfall dŵr er bod Madfallod Cribog Mwyaf yn nosol yn bennaf a gallant fod yn anodd eu canfod

mewn pyllau dŵr yn ystod y dydd.

Mae gwrywod yn datblygu cribau uchel trawiadol, sy'n edrych yn finio, pan fyddant yn bridio. Ceir toriad penodol yn y grib lle mae'r corff yn gorffen a'r gynffon yn dechrau.

Y Fadfall Gribog Fwyaf a'r Gyfraith:

Rhywogaeth dan warchodaeth Ewropeaidd yw'r Fadfall Gribog Fwyaf. Mae hefyd yn cael ei amddiffyn dan Atodlen 5 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad a Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol) 1994

Troseddau:

Gan eu bod wedi'u hamddiffyn dan ddeddfwriaeth restredig, mae'n anghyfreithlon i:

- Ladd, anafu neu ddal y Fadfall Gribog Fwyaf;
- Tarfu arni wrth iddi gysgodi neu fridio, neu rhwystro, difrodi neu dministrio lleoedd lle mae'n byw;
- Meddu, rheoli, cludo, gwerthu, cyfnewid neu gynnig gwerthu/cyfnewid unrhyw Fadfall Gribog Fwyaf fyw neu farw neu unrhyw ran ohoni.

Os gwneir unrhyw un o'r uchod, byddech yn torri'r gyfraith. Os cewch eich erlyn, gellir rhoi dirwy o oddeutu £5,000 neu'ch carcharu am 6 mis.

Pa Ymlusgiaid y gallaf eu gweld yn ne Cymru?

Mae'r Fadfall Gyffredin neu'r Fadfall Fywesgorol (*Zootoca vivipara*) yn cyrraedd tua 18cm o hyd, a'r gynffon yw'r rhan fwyaf o hyn.



Anifeiliaid sy'n symud yn gyflym ac yn ymddwyn yn effro ydynt. Mae ganddynt groen sydd wedi'i orchuddio â chen bach iawn. Gall y lliw amrywio o frown - gwelld golau drwy arlliwiau amrywiol o wyrdd i achosion lle gall unigolion fod yn gyfan gwbl ddu. Ar y cyfan, mae'r rhan uchaf o'r corff wedi'i orchuddio â phatrwm cymhleth o frychni a streipiau tra bod y bol, ar y cyfan, yn amrywiaeth o arlliwiau oren wedi'i orchuddio â brychni du yn achos gwrywod a llwyd neu oren golau heb unrhyw frychni yn achos benywod. Mae madfallod yn bwyta amrywiaeth o invertebratau megis corynnod, pryfed gleision

a sioncyn y gwair. Caiff Madfallod Bywesgorol ifanc eu geni ar ddiwedd mis Mehefin neu fis Gorffennaf a heblaw am ymddangos yn ddu, maent yn fersiynau bach perffaith o'r oedolion. Mae'r gair bywesgorol yn golygu geni rhai bach sy'n fyw. Nid yw'r benywod yn cynhyrchu wyau ond maent yn geni rhai bach byw sydd wedi datblygu i'w ffurf llawn.

Peidiwch â chodi madfall drwy afael yn ei gynffon! Gall Madfallod Cyffredin ddiosgu eu cynffonau fel ffordd o amddiffyn eu hunain (bydd y cynffon yn ail-dyfu dros amser). Mae angen ardaloedd heb eu styrbio ar fadfallod, sydd yng ngolau'r haul am y rhan fwyaf o'r dydd; maent yn hoffi cefnau o lystyfiant sy'n wynebu'r de yn ogystal â phentyrrau o foncyffion a cherrig.

Mewn gwirionedd, rhywogaeth o fadfall sydd heb goesau yw'r Neidr Ddefaid (*Anguis fragilis*). Mae'n treulio'r rhan fwyaf o'i amser yng ngwreiddiau planhigion a'r pridd o'u amgylch yn chwilio am fwydod a phryfaid eraill. Mae'r wllithen fach wen sy'n achosi cymaint o niwed mewn gerddi llyisiau yn eitem fwyd arall.



Gall Nadroedd Defaid dyfu i 40–45cm o hyd. Mae'r croen, er ei fod yn cynnwys cen, yn rhyfeddol o lyfn a gall amrywio mewn lliw o lwyd golau i arlliwiau copr hyfryd. Gellir cael anifeiliaid sy'n gwbl ddu ond maent yn eithriadol o brin. Mae Nadroedd Defaid gwrywaidd yn lliw unffurf drostynt er bod y rhai benywaidd yn dueddol o fod ag ochrau tywyllach ac un neu ragor o stribedi yn rhedeg ar hyd rhan uchaf y corff. Fel y Fadfall, gall y Neidr Ddefaid ddiosg ei chynffon os bydd angen ac nid yw'n dodwy wyau. Mae Nadroedd Defaid bach yn ymddangos tua'r un amser â'r madfallod bach ac maent yn greaduriaid trawiadol, gyda rhan uchaf y corff yn amrywio o aur llachar i arian neu gopr gyda stribyn amlwg yn rhedeg ar hyd y cefn. Mae eu ochrau a'u boliau yn ddu. Mae'r Neidr Ddefaid yn hoff iawn o domenni compost oherwydd ceir gwres a bwyd yno.

Mae Nadroedd y Glaswellt (*Natrix natrix*) yn gwbl ddiiniwed i bobl, a hefyd hwy yw'r ymlusgiad tir mwyaf yn ne Cymru. Y record Brydeinig am Neidr y Glaswellt yw 180cm o hyd, ond ar gyfartaledd maent tua 65–80cm.



Neidr y Glaswellt © ARC

Lliw arferol Neidr y Glaswellt yw lliwiau amrywiol o wyrdd olif/brown gyda

stribedi neu gylchoedd du fertigol, sy'n amrywio llawer o ran eu maint a'u trwch. Ar brydiau, ceir anifeiliaid cwbl ddu. Mae



Neidr y Glaswellt © ARC

eu llygaid yn wyrdd olif golau ac mae kannwyll eu llygaid yn grwn ac yn ddu. Un nodwedd arbennig yw'r croen ar gefn y gwddf sydd, ar y cyfan, yn lliw amrywiol o felyn y cyfeirir yn aml ato fel y "coler". Mae Nadroedd y Glaswellt yn bwyta amffibiaid a physgod bach yn bennaf ac fe'u ceir yn aml yn agos at ddŵr croyw. Mae benywod yn dodwy wyau yn ystod mis Mehefin neu fis Gorffennaf, gan chwilio am lecynnau sy'n cynhyrchu gwres megis pentyrrau o sglodion pren, llystyfiant neu wrtaith, ac maent yn aml yn defnyddio tomenni compost. Caiff Nadroedd y Glaswellt eu geni o fis Awst ymlaen. Mae darparu safleoedd llonydd ar gyfer dodwy a gaeafgysgu yn un ffordd hawdd o helpu Nadroedd y Glaswellt.

Er mai'r Wiber neu'r Wiber Ewropeaidd (*Vipera berus*) yw'r unig neidr wenwynig ym Mhrydain, ceir llawer o hysteria amdani ac mae'n sicr wedi datblygu enw drwg nad yw'n ei haeddu. Yn swil ac yn cadw at eu hunain, bydd Gwiberod fel arfer dim ond yn



Gwiber Gwrywaidd © SWWARG

brathu pobl pan fydd rhywun yn ddigon hurt i geisio eu codi, pan fydd yr anifail dim ond yn ceisio amddiffyn ei hun. Mae Gwiberod yn llai ac yn edrych yn fwy cadarn na Nadroedd y Glaswellt; mae anifail 75cm o hyd yn eithriadol o fawr.

Mae'r lliw cefndir yn llwyd golau neu frown yn achos y gwrywod, gyda stribyn du, sydd fel arfer yn igam-ogam, yn rhedeg ar hyd y corff. Mae'r benywod ychydig bach yn fwy,



Gwiber Benywaidd © SWWARG

gyda'r patrwm igam-ogam yn un o aml-liwiau o frown a gweddill y corff yn fwy golau. Mae eu llygaid yn goch gyda channwyll eu llygaid yn fertigol. Mae anifeiliaid lliw copr yn gyffredin. Mae'r Wiber yn bwyta mamaliaid bach megis llygod a llygod y dŵr yn ogystal â madfallod. Nid yw Gwiberod yn cynhyrchu wyau ond maent yn geni fersiynau bach, perffaith o'r oedolion o ganol mis Gorffennaf tan fis Medi.



Caiff Gwiberod bach eu gweld yn aml © SWWARG

Brathiad gan Wiber, y Ffeithiau

Ni fu unrhyw farwolaethau hysbys yn sgil brathiad gan Wiber ym Mhrydain am dros 20 mlynedd. Dim ond er mwyn amddiffyn eu hunain y bydd Gwiberod yn brathu, h.y. os bydd rhywun wedi sathru arnynt neu'n eu codi. Y ffordd gyntaf y bydd Gwiber yn amddiffyn ei hun yw diflannu i lystyfiant agos yn hytrach na brathu rhywbeth sy'n llawer mwy na hi ei hun. Mae 70% o frathiadau gan Wiberod a ddiodeffir gan bobl yn rhai "sych" h.y. ni chaiff unrhyw wenwyn ei chwistrellu. Yr hen iawn a'r ifanc iawn yw'r rhai mwyaf tebygol o gael eu heffeithio'n andwyol gan wenwyn Gwiber. Os byddwch yn credu i chi gael eich brathu gan Wiber;

Peidiwch â

- chlymu rhwymyn yn dynn
- torri'r brathiad er mwyn sugno'r gwenwyn allan
- ceisio trin eich hun mewn unrhyw ffordd

Sicrhewch eich bod yn

mynd i'ch ysbyty lleol lle mae'n debyg y byddant yn eich monitro tan i chi wella'n naturiol neu, os ydych yn ifanc iawn, yn hen neu'n wan efallai y byddant yn rhoi cyffuriau gwrthwenwyn i chi

Cofiwch

Peidiwch â gadael cŵn oddi ar y tennyn mewn ardal lle mae'n hysbys y ceir Gwiberod ynddi; maent yn llawer mwy tebygol o gael eu brathu na chi

Ble mae Amffibiaid ac Ymlusgiaid yn byw?

Mae herpetoffawna'n byw mewn amrywiaeth o gynefinoedd ledled de a gorllewin Cymru.



Y ffactorau pwysicaf o ran cynefin addas i amffibiaid yw mynediad i ddŵr ar gyfer bridio a lloches ddiogel ar dir. Mae angen i ymlusgiaid gael llawer o haul ac amrywiaeth cymhleth o lystyfiant o uchder amrywiol, mae strwythur y llystyfiant yn bwysicach nag union natur y llystyfiant.

Cynefinoedd herpetoffawna nodweddiadol;

Pyllau dŵr a chynefinoedd o'u hamgylch llwybrau ac ymylon coetiroedd, mieri a chloddiau eithin, llwybrau arfordirol a thwyni tywod.

Gall rhandiroedd hefyd fod yn hafan i herpetoffawna, yn enwedig os yw un neu ddau o leiniau heb eu defnyddio a heb eu haflonyddu. Mae brogaod, llyffantod a madfallod dŵr yn aml yn byw yn y prysgwydd ac yn darparu gwasanaeth rheoli plâu am ddim; byddai pob rhandir yn cael budd o gael ei bwell dŵr bywyd gwyllt ei hun. Gall Nadroedd Defaid a Nadredd y Glaswellt ddefnyddio tomenni compost hefyd.

Mae hen diroedd diwydiannol, y cyfeirir yn aml atynt fel "Safleoedd tir llwyd", yn aml yn darparu cynefin da ar gyfer herpetoffawna ac yn cynnal poblogaethau ledled de Cymru.

Mae argloddiau rheilffyrdd, gwrychoedd ac ymylon ffordd hefyd yn fannau lle ceir llawer o gynefinoedd herpetoffawna, a cheir llawer o Nadroedd Defaid a madfallod eraill yno. Fe'u defnyddir hefyd fel coridorau y gall anifeiliaid eu defnyddio i deithio arnynt gan ehangu poblogaethau.




Colli cynefin

Dros y blynyddoedd diwethaf mae cynefinoedd sy'n addas i herpetoffawna wedi cael eu colli i ddatblygiadau. Mae datblygu tir at ddefnydd masnachol, tai a chreu systemau ffyrdd newydd yn cael effaith, tra bod arferion amaethyddol modern a chynlluniau rheoli tir parc yn aml yn anghofio ystyried gofynion herpetoffawna. Mae ardaloedd mawr o gynefinoedd a oedd yn flaenorol yn cynnal poblogaethau sylweddol bellach wedi diflannu o bob rhan o Brydain, sy'n golygu bod yn rhaid gwarchod yr ychydig

sydd ar ôl. Fodd bynnag, nid yw camau gweithredu o'r fath yn ddigon bellach, oherwydd bod cytrefi herpetoffawna mewn llawer o ardaloedd wedi dod yn anghysbell o'i gilydd yn sgil colli cynefinoedd. Pan gaiff cynefinoedd addas sy'n bodoli rhwng cytrefi herpetoffawna (a elwir yn goridorau) megis gwrychoedd eu colli, nid yw anifeiliaid bellach yn gallu teithio o un gytref i un arall a gall y cytrefi llai yn enwedig wanhau, dirywio'n gyflym a diflannu'n llwyr yn y pen draw yn sgil mewnfagwraeth. Mae angen creu ardaloedd newydd o gynefinoedd addas er mwyn cymryd lle'r hyn a gollwyd ac i helpu cytrefi anghysbell i gysylltu â'i gilydd unwaith eto.

Beth y gallaf ei wneud i helpu herpetoffawna yn Ne Cymru?

Mae angen eich cymorth ar herpetoffawna



Cymru. Mae amrywiaeth o ffyrdd y gall pobl wneud hynny.

Mae rheolwyr parciau a gweithwyr tir mewn sefyllfa dda i sicrhau bod llai o golledion o ran herpetoffawna. Gall newidiadau bach i weithdrefnau torri porfa a phrysgwydd helpu anghenion herpetoffawna. Gall rhywbeth mor syml â pheidio â thorri glaswellt mor agos at linell gwrych, neu adael ymyl ymdonnog yn hytrach nag ymyl syth wneud gwahaniaeth mawr. Gall peidio â chlirio mieri tan fis Tachwedd, gadael ardaloedd bach o laswellt heb eu torri neu bentyrrau parhaol o falurion, boncyffion a gwair wedi'i dorri mewn corneli tawel hefyd ddarparu manteision i herpetoffawna.

Er eu bod ar raddfa lai, mae pyllau dŵr bywyd gwyllt mewn gerddi, pentyrrau cynefinoedd a thomenni compost yn adnoddau gwerthfawr i herpetoffawna. Pe bai un o bob deg gardd yn yr un ardal yn cynnwys pwll dŵr bywyd gwyllt, er enghraifft, yna byddai rhwydwaith o



byllau dŵr yn cael eu creu a fyddai'n cynyddu poblogaeth amffibiad yr ardal ac, yn ei dro, Nadroedd y Glaswell hefyd. Ar ddechrau'r gwanwyn, mae llyffantod yn

Llond bwced o lyffantod © SWWARG



mudo i byllau dŵr traddodiadol er mwyn bridio. Yn aml, mae'r llyffantod yn gorfod ymdopi â'r perygl o groesi ffyrdd prysur a chaiff llawer eu lladd. Ar ôl bridio, mae'n rhaid i'r llyffantod ddychwelyd o'r fan y daethant ohoni a chymryd y risg unwaith eto. Mae patrolwyr "Llyffantod ar Ffyrrd" penodedig yn gweithredu ledled y wlad, gan gynorthwyo cytrefi unigol i groesi ffyrdd prysur ledled y wlad. Fodd bynnag, mae yna hefyd lawer o gytrefi nad ydynt mor ffodus. Efallai y byddwch yn gwybod am safle lle mae llyffantod yn croesi? Os felly, beth am sefydlu eich patrôl eich hun?

Creu pwll dŵr

Gall hyd yn oed y pwll dŵr lleiaf fod yn hafan i amffibiaid. Gall Brogaod, Madfallod Dŵr Llyfn a Madfallod Dŵr Balfog fanteisio ar byllau dŵr newydd yn gyflym. Cloddiwch eich pwll dŵr gydag ymylon sy'n goleddfu'n raddol. Mae'r rhan



Pwll © SWWARG

fwyaf o fywyd mewn pwll dŵr ymhlith yr ardal fwyaf bas neu'r "parth tynnu i lawr". Mae gan byllau dŵr sydd ag ymylon sy'n goleddfu'n raddol y parthau tynnu i lawr lletaf ac felly'r potensial i gynnal yr amrywiaeth bywyd mwyaf. Mae'r nodwedd hon hefyd yn gwneud pyllau dŵr yn lleoedd llawer mwy diogel i blant ac anifeiliaid anwes. Nid oes yn rhaid i bwl dŵr mewn gardd fod yn ddyfnach nag 80cm ar ei ddyfnaf a gall hefyd fod dipyn yn fwy bas pe dymunir. Lle y bo'n bosibl, crëwch gyfres o byllau dŵr llai o feintiau a dyfnder amrywiol yn hytrach na chreu un mawr.

Pan fydd eich pwll dŵr wedi'i lenwi ychwanegwch isbridd o'ch cloddiadau blaenorol ato. Mae uwchbridd yn rhy gyfoethog a bydd yn achosi problemau gyda nitradau ac algâu. Peidiwch â phoeni bod y dŵr bellach yn lliw brown ofnadwy a bod y cyfan yn edrych yn llanastr. Ni fydd yn aros felly am hir.

Os yw'r ddaear yn addas, ac yn achos prosiectau mwy, er enghraifft mewn parcdir, efallai y bydd y cloddiad yn dal dŵr heb angen am leinin. Mewn achosion o'r fath, mae'n aml yn well peidio â chynnwys planhigion ond gadael i bethau ddatblygu'n naturiol.

Os na allwch aros a'ch bod yn dymuno rhoi planhigion yn eich pwll dŵr, yna sicrhewch eich bod yn defnyddio planhigion brodorol a fydd yn darparu amodau delfrydol i'r swm uchaf posibl o fywyd gwyllt. Gall planhigfeydd gyflenwi planhigion a gaiff eu sgrinio ar gyfer

clefydau os byddwch yn chwilio am rai cyfrifol. Peidiwch â chymryd planhigion o byllau dŵr sefydledig, oherwydd efallai y byddwch yn cyflwyno clefydau yn anfwriadol. Dewiswch rywogaeth ocsigeneiddio frodorol megis Cymddail y gellir ei thaflu fel y mae i mewn i'r dŵr. Os caiff lonydd bydd yn gwreiddio ei hun.

Fel arfer bydd pyllau dŵr gerddi yn rhy fach i gynnal Liliâu'r Dŵr, sy'n gallu gordyfu ac atal goleuni'r haul sy'n hanfodol ar gyfer bywyd. Mae yna lawer o flodeuon dŵr brodorol sy'n llawer mwy addas i byllau dŵr bach. Mae Glas y Gors, Galinsoga'r Dŵr, Troed-y-Frân y Dŵr a'r Alaw Lleiaf i gyd yn ddewisiadau da.

Sicrhewch fod y rhan fwyaf o ymyl y pwll dŵr yn cynnwys llystyfiant neu borfa. Mae slabiau concriid o amgylch ymyl y pwll dŵr nid yn unig yn ei gwneud yn anodd i frogaod bach a madfallod dŵr i ddod allan o'r dŵr ond gallant hefyd gynhesu'n sylweddol yn ystod yr haf a dadhydradu a lladd unrhyw amffibiaid sy'n dringo arno.

Bydd planhigion yn coloneiddio pwll dŵr newydd yn gyflym, ac yn y pen draw byddant yn tagu oni chânt eu goruchwyllo. Ar ôl rhai blynyddoedd, pan fydd eich pwll dŵr wedi aeddfedu, bydd angen clirio gormodedd y chwyn o'ch pwll dŵr. Gwnewch hyn ym mis Tachwedd oherwydd bydd yn achosi'r aflonyddu lleiaf i boblogaethau amffibiaid. Byddwch yn eithaf trylwyr wrth wneud hyn oherwydd bydd y chwyn yn tyfu'n ôl ac mae ardaloedd dŵr agored yn ddymunol hefyd. Arhoswch cyn taflu'r chwyn y byddwch yn ei symud o'r pwll dŵr ar y pentwr compost. Gadewch y chwyn mewn pentyrrau am rai dyddiau ger y pwll dŵr i alluogi unrhyw phryfaid neu amffibiaid sy'n trosaeafu yn y chwyn fynd yn ôl i'r pwll dŵr.

Dim ond canllawiau yw'r uchod. Nid yw llyfryn o'r maint hwn yn rhoi lle i fanylu o ran creu pyllau dŵr. Darllenwch y rhestr gysylltiadau ar dudalen olaf y llyfryn hwn i gael gwybodaeth a chynghor manylach.

© SWWARG



Cyfes o byllau llai yn darparu cynefin ymylon lluosog

© SWWARG



Pwll mawr unigol = cynefin ymyl lai



Adeiladwch Safle Gaeafgwsg. Rhyngdoriad yn dangos;



Gellir ychwanegu gwair i gynyddu lefel y gwres.

Mae safleoedd gaeafgwsg addas neu "Gaeafleoedd" yn eithriadol o bwysig ar gyfer herpetoffawna o bob math a gellir eu colli yn sgîl datblygiad, yn aml heb yn wybod i unrhyw un. Gall trychinebau o'r fath effeithio'n ddifrifol ar y gytref os bydd y safle gaeafgwsg mewn defnydd pan gaiff ei ddiinstro.



Mae rhoi pentwr o wair ar ben casgliad o foncyffion yn ffordd arall o gynyddu lefel y gwres a niferoedd pryfaid.

Mae creu gaeafleoedd addas ar gyfer herpetoffawna yn ddigon syml. Gellir creu pentwr o seiliau caled, rwbwl, malurion neu foncyffion a'i adael yn segur mewn rhan dawel o'r ardd. Os byddwch yn lleoli eich pentwr neu'ch arglawdd o'r dwyrain i'r gorllewin, bydd yn wynebu'r de yn naturiol ac yn cael golau'r haul am y rhan fwyaf o'r dydd ar yr amod nad yw'n cael ei gysgodi gan adeiladau neu goed. Os gallwch, gorchuddiwch yr arglawdd o ddeunydd â phridd, ac os byddwch wedi cloddio pwll

dŵr yn ddiweddar, yna bydd gennych ddigon o bridd. Bydd herpetoffawna yn gallu cyrraedd pob twll a chornel yng nghanol y rwbwl a/neu'r malurion o dan y pridd ac wrth wneud hynny byddant yn mynd o dan y rhewlin. Po fwyaf fydd y gaeafleoedd, gorau oll. Mewn amser, bydd llystyfiant yn tyfu ar y gaeafleoedd, neu gallech blannu eich dewis eich hun o blanhigion brodorol.

Crëwch Safle Dodwy Wyau i Nadroedd y Glaswellt



Plisg wyau Neidr y Glaswellt mewn tomen gompost © ARC

Gall ardaloedd o gynefinoedd addas o amgylch pyllau dŵr sy'n cynnwys amffibiaid ddenu Nadroedd y Glaswellt â fydd yn manteisio ar y bwyd fydd ar gael yno. Os ydych wedi creu pwll dŵr bywyd gwyllt yn eich gardd a bod amffibiaid wedi ymgartrefu ynddo, peidiwch â'ch cythruddo neu ofidio os bydd Neidr y Glaswellt yn ymweld â chi. Mae niferoedd Nadroedd y Glaswellt wedi lleihau'n sylweddol ledled Prydain dros y blynyddoedd diwethaf; os cewch ymweliad gan un dylech ystyried hyn fel cadarnhad i chi wneud gwaith da o greu pwll dŵr bywyd gwyllt os bydd digon o amffibiaid i ddenu Neidr y Glaswellt.

Efallai y bydd rhai pyllau dŵr mwy yn gallu rhoi cyfle i Nadroedd y Glaswellt aros ychydig bach yn hirach, ac os felly gallwch eu helpu ymhellach drwy ddarparu safle dodwy wyau iddynt. Mae tomenni compost, pentyrrau o sglodion pren, toriadau porfa a hyd yn oed tomenni tail yn darparu digon o wres i ddeor wyau Neidr y Glaswellt. Po fwyaf yw'r safle dodwy wyau, gorau oll, ond weithiau bydd benywod yn defnyddio tomenni compost llai. Ceisiwch osgoi tarfu ar y pentwr



Nadroedd y Glaswellt ifanc © ARC

rhwng canol mis Mehefin a mis Hydref i alluogi unrhyw wyau ddeor yn ddiogel. Mae gan staff parc gyfle gwych i ddarparu safleoedd dodwy wyau ar raddfa fwy sydd â'r potensial o gael eu defnyddio gan fwy nag un fenyw. Bydd casglu pentwr o naddion pren a thoriadau glaswellt mewn cornel dawel sy'n cael golau'r haul o fudd sylweddol i Nadroedd Glaswellt. Er enghraifft, os yw'r pentwr yng nghornel cae, gellid addasu'r weithdrefn torri glaswellt er mwyn hepgor y gornel honno, a bydd y glaswellt hir yn cysgod i'r pentwr rhag sylw diangen.

Sut gallaf wneud mwy?

Mae Grwpiau Amffibiad ac Ymlusgiad y DU (ARGUK) yn rhwydwaith o grwpiau gwirfoddol ledled Prydain sy'n cynnal gwaith adfer ar gynefinoedd a phyllau dŵr a phrosiectau creu yn ogystal ag arolygu cynefinoedd tebygol. Mae ARGUK yn gweithio'n agos gyda thimau Bioamrywiaeth Awdurdodau Lleol a Cadwraeth Amffibiad ac Ymlusgiaid (ARC) i helpu herpetoffawna lle bynnag y bo'n bosibl. Cysylltwch â'ch ARG lleol er mwyn cymryd rhan mewn cadwraeth herpetoffawna. Does dim ots os nad oes gennych lawer o brofiad, dim ond diddordeb a brwdfrydedd sydd eu hangen ac mae croeso i aelodau newydd.

Cysylltiadau defnyddiol;

Uned Bioamrywiaeth CBS Castell-nedd Port Talbot
www.npt.gov.uk – 01639 686168

Adain Cadwraeth CBS Caerfyrddin
www.carmarthenshire.gov.uk – 01267 224653

Uned Bioamrywiaeth CBS Pen-y-Bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk – 01656 643160

ARGUK – www.arg-uk.org.uk

SWWARG (adwaenydd yn flaenorol fel WGARG)
www.swwarg.co.uk d/o Chaela Carrell,
Ysgrifennydd SWWARG 01639 686168

ARC – www.arc-trust.org.uk
01202 391319

Cadwraeth Pyllau Dŵr
www.pondconservation.org.uk

Froglife
www.froglife.org – 01733 558960

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
www.ccw.gov.uk – 0845 1306229

Diolchiadau

Lluniau a diagramau diolch i
SWWARG, lluniau ychwanegol
diolch i ARC, Fred Holmes a
John Wilkinson



Gwirfoddolwyr © SWWARG

Diolch am ddarllen.

Peter Hill & Mark Barber –
Grŵp Amffibiad ac Ymlusgiaid
De a Gorllewin Cymru



ARG UK
Amphibian
and Reptile
Groups of the
United Kingdom



Reptiles likely to be encountered/Ymlusgiaid rydych yn debygol o ddod ar eu traws

Common Lizard/Y Fadfall

Males: Speckled back and orange belly.
Gwryw: Cefn brith a bol oren.




Common Lizard/Y Fadfall

Females: Striped back
Benyw: Cefn streipiog



Grass Snake (Olive green/brown)/Neidr y Gwair (gwyddfelyn/brown)

Males: Smaller but longer tails.
Gwryw: Yn llai, ond â chynffon hwy.



Females: Get bigger, but shorter tails.
Benyw: Yn tyfu'n fwy ond â chynffon byrrach.



Adder/Gwiber

Males: Often grey.
Gwryw: Yn llwyd yn aml.



Females: Usually brown.
Benyw: Fel arfer yn frown.



BUT - can be difficult to sex. OND - gall fod yn anodd gwahaniaethu rhwng y ddau ryw.

Slow-worm/Neidr Ddefaid

Males: Typically grey or brown, lack distinct stripes, may have blue spots.

Gwryw: Fel rheol yn llwyd neu'n frown. Nid oes ganddynt streipiau amlwg, ond gallant fod â smotiau glas.



Females: Dark brown sides, may have vertebral stripe(s).

Benyw: Ochrau brown tywyll, gall fod streipen (streipiau) ar y cefn.

